Cyfres Llanbedr | Mai, 1930. | Cyf. 30. Rhif 5.

Profwch bob peth: Rhyddid: Gwirionedd: Cariad. Deliwch yr hyn sydd dda

Yr Ymofynnydd.

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Y. Golygydd. Y. Parch T. Oswald Williams.

— Cynnwys. —

Hanes Capeli'r Enwad—
Penrhiw a St. Clears.
Shaffo.
Er Cof am Mrs. Conwil Evans.
Y Parch. Evan Lewis, Cilgwyn, Ceredigion.
Arholiad yr Ysgol Sul, 1930.
Priodasau.
Marwgofion.
Nodion yr Eglwysi.

Y Gwirionedd a'ch rhyddha chwi.

Argraffwyd gan J D. Lewis Gwasg Gomer Llandysul.

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis ; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac yehwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Lampeter.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. Lewis, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

YN AWR YN BAROD.

Gyrrwch archeb yn union am

Y LLYFR EMYNAU NEWYDD—

PERLAU MOLIANT

(SOLFFA)

CASGLIAD O EMYNAU A THONAU AT WASANAETH EGLWYSI UNDODAIDD CYMRU.

Prisiau :—

Lledr Hanner Rhwym, 4/6. | Lledr Llawn Rhwym, 5/6.

Lledr Morocco ac India Paper, 7/-.

Cludiad copiau unigol, 6ch. yn ychwanegol.

Derbynir archebion (*gyda blaendal*) oddiwrth Eglwysi a phersonau unigol yn awr. Anfoner at—

J. D. LEWIS, SWYDDFA 'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSUL.

CHANNING HOUSE SCHOOL

HIGHGATE, LONDON, N.6.

Public School for Girls.

For Particulars apply to THE HEAD MISTRESS.

T. E. Jones, & Co.

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers and Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, etc.

Yr Ymofynnydd.

- - Cylchgrawn Misol - -
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

CYFRES LLANBEDR. MAI, 1930. CYF. XXX. RHIF 5.

Er Cof

am

NHAD . . MAI 1914.
MAM . . . MAI 1927.

Daw'r gôg a'i deunod adref
Dros waneg lâs y lli ;
Mae'r ddraenen yn ei blodau,
Pam na ddychwelwch chwi ?
Mae Mai fel Olwen brydferth,
A'i sang ar fryn a dôl ;
'Rwy'n gwybod na ddychwelwch,
Ond 'rwy'n eich disgwyl 'nol.

Hanes Capeli'r Enwad yng Nghymru.

PENRHIW.*

YN ei gân "Ffarwel i'r Byd a'r Eglwys" a ysgrifennodd Castellhywel rhyw gant a hanner o flynyddoedd yn ol fe ddywed ei brofiad,—

> "Mi ges lawer odfa wiw
> Pan yn ifanc, ym Mhenrhiw,
> Pan bai'r Ifans, Llwyd a Gronow
> Ar eneidiau'n daer yn galw."

Nid wyf yn sicr yn y byd y gŵyr y degwm ohonom air o hanes yr hen gapel llwyd dinod, yr iorwg ymhleth amdano, yr hen bulpud yn *shwrwd* a swn dadfeilio megis rhwng ei furiau. Yr ym wedi mynd yn ddifater rywsut. Nid oes ysbryd menter a brwdfrydedd y teidiau ynom. Beth i ni yw Cwmwrdu, Onnenfawr, Panteg, St. Clears, Rhydyparc a Phenrhiw? Enwau a dim ond enwau, ond dylasem dynnu ein hesgidiau oddiam ein traed oherwydd sengi ohonom ar ddaear gysegredig. Y mae cau capel i mi fel cau porth drwy yr hwn yr arferid cerdded at Dduw. Rywsut y mae rhamant crefydd wedi'i gwau yn y fro ac y mae iddi hanes gwerth ei adrodd.

Yn fore bu Stephen Hughes, Apostol Sir Gaerfyrddin yn pregethu yn Nyffryn Teifi a chodwyd capel yn Henllan tua diwedd y ddwyfed ganrif ar bymtheg, tymor digon tymhestlog yn hanes crefydd yn y wlad. Yr oedd Owen Davies yn weinidog yma hyd 1691 ac y mae'n ddiddorol cael yr awgrym hwn yn "Freedom after Ejection" tudalen 143.

> Mr. Owen Davies. Carmarthenshire. Pastor of a people at Pall hath. 41 *p* ann fro his father is a Widdower hath. children grown up.

Y mae pedair punt y flwyddyn yn awgrymu na welsai eisiau byth ellid tybio.

Beth bynnag am hyn dyma'r adeg y rhwygodd yr Annibynwyr a'r Presbyteriaid yn Llundain a drylliwyd yr Uniad Hapus yn 1694.

(* Gweler os mynner YMOFYNYDDION Tachwedd 1928 ac Awst 1928. Fe'i rhoir yma er eu cael yn y gyfres.)

Y mae'n ddiddorol sylwi hefyd mai achos un Richard Davies (1658—1714) genedigol o Geredigion, a gweinidog Rothwell, Swydd Northampton oedd un o'r rhesymau cryfaf dros y rhwygo. Yr oedd Davies yn uchel Galfin a chyhuddid ef o fod yn Antinomiad. Wedi'r rhwygo yn Llundain, nid hir y bu cyn i ddyffryn Teifi deimlo rhyw gynnwrf yn y gwersyll.

Yn gynnar yn y ddeunawfed ganrif—ar ei throthwy megis—dewiswyd David Owen, brawd hynaf James Owen o Groesoswallt yn weinidog yn Henllan. Nid hir y bu'r gynulleidfa cyn rhwygo a chododd y blaid uchel galfinaidd gapel Rhydyceisiaid. Yr oedd y ddadl yn frwd o 1707 tan 1709. Yn 1710 bu farw David Owen a dewiswyd ei fab Jeremi Owen yn weinidog yn ei le. Y mae Jeremi Owen yn un o feistriaid yr iaith Gymraeg.

Nid oes a fynnom a'r helynt yn Henllan, ond er dangos fod ysbryd rhyddfrydig yn y tir a chyn pen nemor o flynyddoedd yr oedd y Parch. Jenkin Jones yn pregethu Arminiaeth yn Llwynrhydowen yn neheudir Aberteifi.

Dyma ddechreu'r achos ym Mhenrhiw, er na chodwyd mo Penrhiw am flynyddoedd. Yr oedd llawer edmygwr i Jenkin Jones yn eglwysi Calfinaidd Dyffryn Teifi a hwyrach fod lefain Henllan yn y blawd. Beth bynnag yr oedd yna rai edmygwyr iddo yn eglwys Drefach—Eglwys Saron Llangeler erbyn hyn. Bu Jenkin Jones farw yn 1742 cyn iddo megis fraenaru'r tir ond pregethwyd yr un genadwri gan y Parch. Dafydd Llwyd, Brynllefrith a chafodd gyfle yn awr ac yn y man i draddodi'i neges o bulpud Drefach gyda chydsyniad yr adran galfinaidd. Awgryma hyn fod yna leiafrif cryf yn coleddu syniadau Dafydd Llwyd hyd yn oed yn Nrefach. Cyn hir aeth yn rhwyg. Ni fedrai'r ddwy adran gyd-addoli a gorfu i'r blaid Arminaidd ymadael yng Ngwanwyn, 1756. Nid oedd dim amdani ond cynnal gwasanaeth yn yr awyr agored ac y mae'n werth sylwi na chodwyd Capel Penrhiw am ugain mlynedd—yn y flwyddyn 1777. Saif ar ben y rhiw fel yr awgryma'i enw ym mhlwyf Llangeler, Sir Gaerfyrddin, yn ardal Drefach ar yr hewl sy'n arwain o Drefach i Saron. Nid yw ond adeilad syml a phlaen heb ddim adnewyddu wedi bod arno er ei godi gydag yn unig eithrio rhoi tô newydd arno yn 1870. Wrth ei gefn y mae mynwent fechan gyda chwrt o'i flaen a sedd o faen gylch y muriau lle'r eisteddai'r cymunwyr na chaent le yn y Capel.

Rhoddwyd tir at godi'r Capel gan David Mathias, Coedstreisaf, a rhoddwyd y brydles arno i Ddafydd Llwyd y gweinidog, Thomas John, Butcher, Penboyr Parish, Xmas Evans, Henfryn, Thomas Griffiths, John Evans, Glanrhyd, David Simon, Cilgynydd ac Evan

Samuel, i gyd o blwyf Llangeler. Yr oedd am 500 mlynedd a'r tâl oedd chwecheiniog y flwyddyn os gofynnid am dano. Yn 1798 am ryw reswm neu gilydd gwnawd prydles newydd.

Nid oedd fynwent yma hyd 1823, pan brydleswyd darn o dir am fil o flynyddoedd namyn un am goron y flwyddyn a dyma'r ymddiriedolwyr—" Rev. David Davis of Llwyn, Rev. John Davies of Llwyn, James Thomas Llwynrhydowen, John Evans Castlehowel all of Llandyssul Parish, Rev. William Rees, Tryale, Samuel Evans, Aberhalen, Samuel Jones Gelligynan, David Lewis Blaen-(fforest)? all of the Parish of Penboyr and John Evans Tygwyn (farmer), John Evans Cwrt (shoemaker), Thomas Williams Cilgynydd, David Jones Cwrt (farmer) all of Llangeler Parish; Benjamin Evans Gelynen Cilrhedyn, Thomas John Pwllyrheirn Llandyfriog, Rev. David Davis of Cittin Blaenporth Parish (enrolled by W. D. Jeremy, May 13, 1862)."

Erbyn 1887 yr oedd yn agos i ddeugain yn gorwedd yma.

Yn 1894 gwerthwyd ystad Ffynnondudur.

Rhoes Dr. Strickland, perchennog tir y Capel, y Capel a'r Fynwent gyda darn newydd o dir i'r Undodiaid fel rhodd, ond nid oedd y darn newydd wedi'i gau i mewn yn 1898 (Jones, Llangeler a Phenboyr pp. 217 : 226). Medr rhywun ddywedyd pryd y'i cauwyd a phwy a'i cauodd hwyrach.

Ym Mhenrhiw bu Christmas Evans (1766—1838) y gweinidog enwog gyda'r Bedyddwyr yn addoli tua 1785—7 a David Davis y gweinidog Annibynol adnabyddus yn Abertawe am ysbaid fer yn 1786. Maentumir mai colli Christmas Evans a David Davis oedd y golled fwyaf a gafodd Undodiaeth yn ei holl hanes. O leiaf, fe fu'n colled ni yn ennill i rywrai.

Yr wyf wedi aros rhwng ei furiau llwyd a phregethu yn ei bulpud. Gwelwn yno yr hen gedyrn fu, a chenhedlaeth ar ol cenhedlaeth yn cyrchu iddo ac yn ei gael yn borth i'r nef. Nid yw felly mwy. Y mae'r llu wedi cefnu. Nid oes yma ond ambell wasanaeth, ond erys ysbrydion y gwŷr gynt rhwng ei furiau fel cwmwl o dystion i'r gennad pan ddaw a blotyn ar gymeriad yr enwad yw esgeuluso Penrhiw a'r gannwyll wedi bod ynghyn yno am ryw naw ugain mlynedd. Gyda'r berw a'r tryblith ym myd crefydd, gydag hela heresi drwy'r enwadau pwy ŵyr na welir y werin onest eto'n addoli Duw yn unol a goleuni cydwybod a rheswm ym Mhenrhiw.

Rhestr o Weinidogion Penrhiw—(W.J.E.).

David Lloyd	1756—1777
David Gronw	1760—1769
David Davis	1769—1820
David Griffiths	1756—1794
Griffith Griffiths	1788—1818
David Davies (Maespwll)	1819—1825.
David Lewis Jones	1812—1814
William Rees	1814—1830
Daniel Evans	—1827
John Davies	1820—1858
David Evans, B.A.	1830—1853
Peter Joseph	1853—1857
Titus Evans	1860—1861
William Beynon Hughes	1861—1868
William Marles Thomas	1868—1871
Walter Jenkins	1871—1873
William Marles Thomas (Gwilym Marles) ...	1873—1875
William Davies	1875—1879
Jenkin Williams	1879—1892

ST. CLEARS.

O GYRRAEDD croesffordd St. Clears a gadael hewl Caerfyrddin a throi i'r dde i gyfeiriad Laugharne, yr ym yng nghymydogaeth Capel St. Clears. Wedi troi meddyliwn am yr hyn a glywais. Pa sawl un o'r hen *frigade* fu'n cerdded yr un hewl a'u hwynebau tua chapel St. Clears, capel y Graig onide? Ni fum i yno erioed o'r blaen ond gwyddwn amcan lle y bu. Nid oedd rhai o'r trigolion wedi clywed sôn am dano ond dyma hen wraig olygus yn dod. Oedd. Yr oedd hi'n cofio am hen gapel, capel y Wesleyaid, a thybiais fod y cyfan yn ofer. Wedi awgrym neu ddau, deallodd. "Yr ych yn eithaf iawn," meddai. "Ewch yn ol nes dod at Gapel Mair a throwch ar y chwith ar yr hewl sy'n arwain rhwng Capel Mair a'r Ysgol ac fe welwch lle'r oedd gynt." Euthum. Yr oeddwn wedi meddwl gweld o leiaf hen olion neu glawdd ffin ond yn ofer. Nid oedd yno ond dau dŷ newydd wedi'u codi a rhyw gi ffyrnig yn cyfarth fel pe bai yn amau fy hawl i droi i mewn. Tybed ei fod yn credu mai ysbryd un o'r teidiau a fu'n pregethu yno oeddwn? Pwy ŵyr? Yr oedd gwraig y tŷ yn fwy serchog na'r ci, ond dywedodd nad oedd garreg ar garreg hyd y gwyddai o glawdd na dim. Trois ymaith gan aros ar y clôs a gwrando—gwrando a glywwn lais Ben Phillips

neu David John neu rai o fyfyrwyr Coleg Caerfyrddin yn adeg John Davies neu William James neu Gribyn Jones? Yr oedd pob tafod wedi tewi a dim ond awel fwyn dydd o Orffennaf yn sisial wrthof am y dyddiau gynt a chewri 'slawer dydd.

Tybiaf glywed rhywrai o'm darllenwyr yn gofyn "Paham yr oedi yn St. Clears? Ni chlywsom ni sôn am St. Clears a Chapel Undodiaid yno? Choeliwn ni fawr."

Y mae'r hyn a ddywedir am St. Clears heddiw i fod yn wir am Gwmwrdu, Rhydyparc, Penrhiw a Phanteg yfory ac ysbrydion y teidiau yn aflonyddu arnom oherwydd ein diffyg ymdrech. Ni wnaf i ond adrodd stori seml er ceisio deffro rhywun i ail chwythu'r marwor ar yr hen aelwydydd.

Nid oedd Capel St. Clears yn hen. Dyma gynulleidfa a fu farw'n ieuanc.

Tua'r flwyddyn 1737 y daeth y Bedyddwyr i'r ardal ac ni adeiladwyd capel yma tan 1769 ac yn byw am flynyddoedd ar gynhorthwy gweinidogion eglwysi'r cylch. Ei gweinidog cyntaf oedd y Parch. Benjamin Phillips a fedyddiwyd yn 1775. Bu yn Athrofa Caerodor a neillduwyd ef yn fugail i'r eglwys yn 1787—eglwys Salem Meidrim, ac yn 1794 yr oedd rhif yr aelodau yn 160. Yn 1799 cynhaliwyd y Gymanfa yma a rhwygwyd yr eglwys a'r enwad i raddau mawr. Unodd y gweinidog—y Parch. Benjamin Phillips a'r blaid Arminaidd, a bu ymryson am y capel a phenderfynwyd i'r ddwy blaid ei gael bob yn ail Sul. Yn 1801 ordeiniwyd y Parch. Thomas Williams yn weinidog ar y Bedyddwyr Neillduol ac yn 1811 prynodd Mr. Williams a'i blaid hawl Mr. Phillips a'i blaid yn y Capel am hanner canpunt.

Bu Mr. Phillips a'i blaid yn cynnal gwasanaeth flynyddoedd cyn codi capel oherwydd ceir hanes taith bregethu Mr. Wright y Cenhadwr Undodaidd yn y Monthly Repository, td. 682, 1816, lle dywedir—

"I preached at the house of Mr. B. Phillips. There is a small Unit. Bapt. Society in the neighbourhood of this town which is supplied by Mr. Phillips and Mr. D. Johns of St. Clears."

Yn Nhachwedd 1827 y ceir cofnod am *grant* o Drysorfa Lewin's Mead Bryste at drysorfa er codi capel yn St. Clears a dyma'r adeg ond odid y codwyd Capel y Graig, St. Clears, rhyw gan mlynedd yn ol. Ni chredaf fod fawr o gamp arno oherwydd nid oedd gorau iddo ond ar bwys y pulpud, rhywbeth ar gynllun Capel Cwmwrdu. Y mae y Parch. Geo. Harries wedi tynnu rhestr o gapeli a gweinidogion Undodaidd, ac yn 1818 yr oedd y Parch. David Jones (neu John) yn weinidog yn St. Clears.

Fe geir awgrym yn Yr Ymofynnydd 1897 (td. 386) i'r Parch. John Thomas, Pantydefaid adael Pantydefaid tua 1829 gan ofalu

hwyrach am St. Clears nes dychwelyd ohono i Llandysul, yn Hydref, 1835.

Tua 1837 fe geir y Parch. David Beynon yn gweinidogaethu yma a bu farw yn 1865. Ni wn i a fu'n weinidog hyd ei farw ond o 1865 tan 1878 nid oedd yma ond *supplies* ac yn 1866 fe geir cofnod fod Mr. Rees Jones, myfyriwr (y Parch. R. C. Jones wedi hynny) wedi cael *grant* Lewin's Mead am St. Clears.

O 1878 i 1880 yr oedd y Parch. W. E. Davies yma, ond oherwydd afiechyd fe'i cynorthwyid gan y Parch. Jenkin Williams. Wedi 1880 nid oedd yma ond *supplies*, y gynulleidfa'n fach a'r achos yn gwywo. Yn 1901 fe werthwyd y capel a'r fan am ugain punt ac yno heddiw y saif dau dŷ byw. Yfory ni bydd neb yn gwybod pregethu o'r efengyl yno o gwbl.

Y mae'r hanes yn ddiddorol i mi o leiaf ac yr oedd y Parch. R. C. Jones yn ei afiaith wrth adrodd am ei deithiau pregethu i Rydyparc a St. Clears. Ni chredaf ychwaith y dylasem anghofio gwasanaeth y Parch. Benjamin Phillips a'i deithiau cenhadol drwy Gymru yn 1808—1809. Yn 1809—1810 bu ar daith bregethu drwy amryw o siroedd Cymru a bu yn gydymaith i Mr. Lyons yn 1811. Yn 1815—1816 yr oedd wedi gwneuthur amryw deithiau ac yn Adroddiad y Drysorfa Undodaidd am 1821 fe geir hanes diddorol am dano fel cenhadwr yn ystod y tair blynedd cyn hynny. Yn 1839 yr oedd yn hen wr 89 mlwydd oed. Treuliodd hwyrddydd oes gyda nith iddo yng Nghaerfyrddin lle bu farw. Gwnaeth ddiwrnod da o waith a cheir cofnod yn y Monthly Repository 1807, td. 618 "David Richards . . . A member of the Gen. Bapt. Congreg. under the care of the Rev. Benj. Phillips of St. Clears was inducted into the pastorate of two churches at and near Cardigan, Nov. 5, 1807." Bu'r Parch. David John yn weinidog Twynrodyn Merthyr am ddeg mlynedd ar hugain. Yn Salem Meidrym hefyd y codwyd y Parch. William Richards o Lynn ac er y dywedir nad oedd yn Drinitarian nac Arian, eto y mae ei enw ar restr gyntaf Cymdeithas Undodaidd Cymru fel tanysgrifiwr yn 1802. Ni fedraf i ond nyddu pennod o shiprys o hen gyfnodion a hynny am fod y gwŷr a fu yma wedi canu'n iach heb groniclo rhamant Crefydd Rydd yng Nghapel-y-Graig, St. Clears. Nid oes faen o'r mur hyd y gwn i yn llefaru wrth fforddolion am a fu yno ond pan ysgrifennir hanes y mudiad Undodaidd yng Nghymru hawlir lle anrhydeddus gan y Parch. Ben Phillips y Cenhadwr a arloesodd y ffordd, a cheir cofnod hwyrach ar gronicl Duw gan rywun a welodd ddrws y nef yng Nghapel-y-Graig, St. Clears.

O.

Er Cof am Mrs. Conwil Evans, Rhydygwin.

MAE Duw yn natur yn garedig
Waith glâs yw'r llwybr a gerddai gynt ;
Mor drist ei hardal fach siomedig,
A chwyn hiraethus sy'n y gwynt :
Fe chwiliaf i ar fryn a dôl
Am ol troed un na ddaw yn ol.

Fe gân aderyn ganig dawel,
Ar adain fry mae'r curyll glâs ;
Distawa'r gân ar dannau'r awel--
Fel bollt o'r nef y dyrnod câs :
Fel curyll glâs at dderyn bach
Daeth Angau at ei chalon iach.

Mi holaf wŷr ei hen ororau—
Mae gwlithyn arian ar bob grudd.
Distawrwydd yw yr ateb gorau--
Rhyw fwrlwm siriol oedd o ddydd :
Mewn cariad cerddodd ar ei gwên
I'r galon ifanc ac i'r hên.

O Giliau trof yn drist o galon,
Ni fedrai eglwys garu'n well ;
A Rhydygwin sy'n llawn gofalon
Am iddi orwedd mewn bro bell:
Mae Ciliau heddiw'n drist a blin,
A thorcalonnus Rhydygwin.

Mae *un* a " phwsi " yn ei dwylo
A'i llygaid gwirion hyd y fyl ;
Fe etyb hithau trwy yr wylo,—
"Anfonaf rhain i Mam i Ryl" :
Fe ddywed deigryn Beti pam—
Y mae heb Iris fach na'i Mam.

Daw "dyn ei chalon" yma'n wirion,
Mor unig yw ei weddwdod trist,
A chryma dan y loes annhirion
Gan ddwyn ei groes yn ysbryd Crist :
Mi glywa'i llais y funud hon
Yn galw—galw'n ddistaw—
" Con!"*

Hiraethwn ni am ysbail Angau,
A thlotach yw ein hardal fach ;
Ond beth sydd yn ei lym grafangau
A hithau wedi canu'n iach :
Ysbeiliodd ni o'r corff a'r llais
Ond erys *hi* ar waetha'i drais.

Ei cherdded ydoedd yn osgeiddig
Ac ni ddanghosai galon glaf ;
Mor siriol oedd ac mor fonheddig,
A'i gwên fel ton o heulwen haf :
Mae'r llygad llon, y wridog rudd,
A'r wefus gwrel heddiw 'nghudd.

Fel miwsig ton ar ro y marian
Y chwyddai'r gân oedd yn ei bron,
A melys fel sain clychau arian
Hen Gantre'r Gwaelod dan y don :
Ei llais ni chlywir mwy'n y côr,
A hithau fry yn moli'r Iôr.

---

* Ei henw am ei phriod.

Fel gwlith ar rôs tan wres Mehefin
Y llonnai hi yr ysbryd trist :
Ei chartref ydoedd ei chynefin—
Dug ysbryd ffein i eglwys Crist
Sirioldeb cwmni'i hysbryd byw--
Perarogl oedd yn eglwys Dduw.

Ei haelwyd lân oedd lawn o garu
A dwy fach arni mor ddi-nam ;
Trueni fyddai eu hysgaru
Gan dorri calon dyner mam :
Dwy lili fach mor wyn! mor wyn!
Ond oer yr awel yn y glyn.

Trwm lwythog oedd y du gymylau
A llwydrew ar y ffenestr wen ;
Er gwingo'n erbyn y symbylau
Fe gipiwyd un tuhwnt i'r llen :
Fe hunodd Iris : colli serch
At fywyd ydoedd colli'i merch.

Mae'r mwsg fin hwyr yn llanw'r awel
O'r border bach sydd ger y drws ;
Pur fel y lili'i hysbryd tawel—
A'i hoes fel arogl rhosyn tlws :
Mor bur ei bywyd yn y fro,
A hyfryd ei berarogl o.

Fel Olwen dlos y Mabinogion
Drwy ddyffryn Aeron cerddodd hon ;
A phawb oedd iddi'n gymyd ogion—
Cariadus oedd ei thyner fron :
Fe welem ni y meillion ha'
Mewn serchus wên a gweithred dda.

Ond clybu gri ei thad clwyfedig
A gerddai lan yr Afon Ddu !
Fe waedai'i chalon fyw garedig,
A brysiodd ar ei siwrnai dru :
Anelodd Angau ato'i saeth,
Ond trwy ei chalon hi yr aeth.*

O dan ei chlwy' fe oedodd ennyd,
Ond dim ond am ryw ennyd fer ;—
'R oedd gwrando Iris iddi'n benyd,
Derbyniodd hi'r angeuol her :
Fe alwai Iris ar ei Mam,
A thros yr afon y rhoes lam.

Fel cri'r gylfinhir dros yr Aran
Doi'r newydd trist gan dduo'r wawr ;
Brawychwyd ardal fel gan daran
Ar ganol dydd bu'r machlud mawr.
Parlyswyd ardal ganol dydd—
Ni choeliai neb y newydd prudd.

* * *

"Rhy Gynnar ! " medd yr ardal dawel,
"Rhy Gynnar," wyla'r teulu prudd :
"Ond Duw ŵyr orau," sibrwd awel,
" A diolch am ei hoes," ddwed ffydd :
Yn serch pob bron mae'i choffa'n wyn,
Ac nis anghofir y ffordd hyn.

DIM OND DEIGRYN.

---

* Bu farw dridiau o flaen ei thad.

Arholiad yr Ysgol Sul 1930.

SAFON I. dan 10 *oed.*

ALLTYBLACA.—Albert Hefin Price, Evan Lloyd Davies, David Tom Christmas Evans.

BRONDEIFI.—Nancy Lee Williams, Nanna Williams, Joan Mary Jones, Nansi Rachel Jones, William John Jones.

CILIAU.—Mary Catheline Davies, Trevor Jones.

CAPEL-Y-BRYN.—Nat Davies, Margaret Verona Davies, Sally Davies, Mary Evans, Mary Jones, Emma Leonard Pughe, Jennie Jones, B. Hannah Jones, Timothy D. Jones, Daff Price Davies, Marian Davies, W. Lloyd Jones, T. Mordecai Alwyn Davies, James Ronald O. Davies.

CWMSYCHBANT.—Margaret Jane Evans, Gretta Lloyd, Margaret E. Richards, John Lloyd, Titus A. B. Evans, Tom Abel Jones.

CAPEL-Y-GROES.—Hannah V. Richards, Rachel S. E. Richards, Alun Bowen Davies, Stanley Thomas, Idris Williams, Bessie E. Williams, Mary Rachel Rees, Gwenllian Thomas, Jennie Williams.

PANTYDEFAID.—Daniel Davies, Gwilym Davies, Lloyd Jones, Benjamin R. Evans, Jack Heap, Eileen Jones, Peggy Lewis, Mary Evans, Margaret Evans, Nina Thomas, Rachel Thomas, May R. Thomas, Katie Jones, Vernie Lewis, Tommy Lewis, Tyssul Lewis, Nancy Davies, Margaret Thomas, Sarah Cerdina Davies, Nancy Jones, Wally Thomas, Jack Jones, Dan Jones, Edith Heap.

RHYDYGWIN.—Mary Acrona Davies, Bessie Lloyd, B. Conwil Evans, Mary Davies, Joshua Davies, T. Jonathan Davies, Evan David Davies, Thomas Davies, Ernest Davies.

SAFON II. dan 13 *oed.*

DOSBARTH I. (*Anrhydedd*). Sally Lloyd (*Bathodyn*) a John Charles Jenkins, Cwmsychbant; Betsy Evans, Bwlchyfadfa; Tegwen Davies, Capel-y-Bryn; Megan Evans, Llwynrhydowen.

DOSBARTH I. Cyril Rees Price, Alltyblaca; Ray Davies, Caeronnen; Kitty Evans a Getta Jones, Capel-y-Bryn; David Tom Evans, Cairo Jenkins a Maggie Jones, Pantydefaid.

DOSBARTH II.—Elizabeth Florence Davies a Morwen Jane Davies, Brondeifi; Dannie Davies, Megan Davies, David Jenkins, David Tom Jones, Blodwen Pughe a Caroline Pughe, Capel-y-Bryn; Evan Tom Davies a Jennie Davies, Llwynrhydowen.

SAFON III. dan 15 *oed.*

DOSBARTH I. (*Anrhydedd*).—Bronwen Thomas (*Bathodyn*) a David Jacob Davies, Pantydefaid; Eleanor Lloyd, Rhydygwin; Nancy Davies, Graig, Llandysul.

DOSBARTH I. Bessie J. Davies, Alltyblaca; Margaret E. E. Evans, Cwmsychbant: Hannah Evans, Sarah S. Evans, Evan Daniel Jones, Pantydefaid.

DOSBARTH II. David Jones, Alltyblaca; Bet E. Evans a Sally Lewis, Pantydefaid.

SAFON IV. dros 15 oed.

DOSBARTH I. (*Anrhydedd*).—May Davies (*Bathodyn*), Graig, Llandysul; Margaret Ann Evans, Rhydygwin.

DOSBARTH I.—Jessie Evans, Graig, Llandysul.

SAFON II. Ar Lafar.

Ray Davies, Annie Jones a Jack Lewis, Pantydefaid; Mary Hannah Thomas, Maggie Elizabeth Thomas a Gwyneth Evans, Bwlchyfadfa: David G Evans Davies, Ivor Thomas a Cerdin Howells, Graig, Llandysul: David D. R. Evans, John David Davies a Dilys E. Davies, Brondeifi: Hannah E. R. Morgan, D. Idwal Jones a Owen Lloyd Jones, Capel-y-Groes.

D.S.—Teimlwn eleni eto yn wir ddiolchgar i'r Athrawon am eu gwaith diflino gyda'r plant: ac hefyd i'r Arolygwyr am eu cynorthwy a'u hufudd-dod drwy'r blynyddoedd ddydd yr Arholiad: ac yn sier fe gaiff yr Ysgrifennydd newydd yr un parodrwydd i'w gynorthwyo ac i hwylysu'r gwaith da yn y dyfodol. Da iawn gennyf fod yr Arholwr yn dwyn y fath dystiolaeth ragorol i waith yr Athrawon drwy'r flwyddyn; ac i waith y Plant yn y gwahanol Safonau ddydd yr Arholiad. Y mae hyn yn sier yn galondid ac yn ysbrydiaeth nid bychan i bawb a deimla ddiddordeb yn yr Ysgol Sul, i fyned rhag eu blaen a'r gwaith da ac i barhau i wneud y cynydd ag sydd eisoes wedi dechrau hyd nes y gwelwn i gyd yr Ysgol Sul unwaith eto yn llanw lle gwir law forwyn i'r Eglwys.

D. CONWIL EVANS.

PLESER yw sylwi fod mwy o ymgeiswyr wedi eistedd yr Arholiad eleni na'r flwyddyn flaenorol. Mewn gwirionedd mae'r nifer yn fwy na chymaint arall. Ond wrth edrych y dydd o'r blaen drwy dudalennau yr YMOFYNNYDD am 1901 mi ganfyddais er gofid nad yw hyd yn oed y nifer presennol ond un ran o dair o'r hyn oedd yr amser hwnnw. Gadawer i ni obeithio fod diwygiad yn dechreu cymeryd lle ac y bydd i ni ddychwelyd yn fuan at y cyflwr llewyrchus fodolai ddeng mlynedd ar hugain

yn ol. Yn ychwanegol at hyn cawn fod yn 1901 nifer luosog yn eistedd o Ysgolion Sul Cwmbach, Hen Dŷ Cwrdd, Aberdâr a Threbanos.

Mor bell ag y mae gwaith y flwyddyn hon yn myned yr wyf wedi cael boddhad neillduol. Fe ddug y papyrau i gyd dystiolaeth fod y plant wedi gwneud eu goreu a'u bod wedi eu paratoi yn ofalus. Nid gwaith hawdd bob amser oedd penderfynu yn mha ddosbarth i'w gosod. Nis gellir disgwyl perffeithrwydd oddiwrth arholwr yn fwy na'r plant eu hunain. Hawdd oedd gweled—i enwi ond un anfantais yn unig—fod ambell un yn cael anhawsder i fynegu ei feddwl mewn geiriau. Ond cymered y cyfryw gysur gan gofio fod gwir werth yr Arholiad yn gynwysedig yn y paratoad yn fwy nag yn yr adroddiad.

Y goreu yn Safon II. eleni yw Sally Lloyd o Gwmsychbant ac y mae yn llawn deilwng o'r bathodyn. Nid pell ar ol ychwaith oedd Megan Evans o'r Llwyn, a John Charles Jenkins eto o Gwmsychbant. Yn Safon III. teilyngir y lle cyntaf gan Bronwen Thomas o Bantydefaid a'i heiddo hi yw y bathodyn heb unrhyw amheuaeth. Teg yw rhoi cannoliaeth hefyd i'r ddwy sydd nesaf ati, sef Eleanor Lloyd o Rhydygwin a Nancy Davies o'r Graig. Fe fyddai yn bleser gennyf pe bae rhagor wedi eistedd yn Safon IV. Siomedig iawn i'r Arholwr yw y ffaith nad oedd gan yr un bachgen yn Ngheredigion ddigon o wroldeb i ymgymeryd a'r gwaith. Gwyddwn o'r blaen fod y merched cystal a'r bechgyn ond ni feddyliais hyd yn hyn eu bod wedi blaenu arnynt. Hyderaf y caiff y fantol ei chywiro yn yr arholiad nesaf. Y goreu yn y Safon hon yw May Davies o'r Graig, Llandysul, a'i heiddo hi yw y brif wobr am y flwyddyn. Mae ganddi lawysgrifen glir, Cymraeg cywir a gwybodaeth drwyadl o'r maes llafur.

Dewiswyd y gwaith eleni gydag amcan neillduol. Ffynhonell symudiadau pwysig geir yn y cyfan. Gwna Safon I. ein dysgu am Samuel yn tyfu o ddinodedd i fod yn un o arweinwyr mawr y ddynoliaeth, ac am Sefydliad y Deyrnas a Phroffwydoliaeth yn Israel. Yn Safonau III. a IV. ceir hanes am gyflwr boreuol y symudiad Cristionogaidd. Gwahanol iawn oedd pethau yr amser hwnnw i'r hyn ydynt heddiw. Yr Ysbryd yn chwythu fel gwynt ac yn disgyn fel tân o'r Nefoedd oedd grym ysbrydoliaeth canlynwyr cyntaf Iesu. Amlygai ei hun mewn gwahanol ffyrdd—doniau—ac eto yr oedd yna undeb—undeb cariad—yn rhedeg fel llinyn aur drwy yr oll. Fe ddysgir hyn gan Paul yn I. Corinthiaid XIII. Pennod ryfeddol yw hon a da yw meddwl fod pob ymgeisydd yn Safonau III. a IV. wedi ei throsglwyddo i gôf.

Yn ddiameu y mae'r Arholiad wedi profi o werth pe yn unig ond wedi gwneud i'r plant sylweddoli mae Cariad yw sylfaen bywyd yn ei holl gysylltiadau.

J. Park Davies (*Arholwr*).

Shaffo.

(Dameg).

Ni wn i pam, ond dyn agos, hawdd mynd ato heb ddim hymbyg yn perthyn iddo yw fy narlun i o Iesu. Siaradai ar ddamhegion a dychmygai weld ei lygad yn gloywi a'i galon yn llawn hiwmor iach o edrych ar droion bywyd. Nid oedd wenwyn yn ei saeth ond ai adref bob tro. Y mae dyn yn y mŵd ambell dro a phob digwyddiad yn awgrymu athroniaeth pethau cyffredin bywyd. Felly yr oedd gyda Iesu i'm tyb i.

Pan fo'r gôg yn canu a'r blodau fel botymau o bob lliw ar got lâs y cread, diddorol ydyw gadael mwstwr byd a throi i dawelwch y wlad. Y mae'r wlad ynghlwm am fy nghalon i. Nid oes ddydd yn hollol fel ei gilydd. Gwên a chwmwl, haul a chawad yw hi yno, gyda rhyw fŵd newydd byth a beunydd.

Ddoe ymwelwn a fferm. Waeth ble. Fferm yw fferm ac o ymweled ag un fferm yr ych wedi gweld pob fferm mewn ystyr. Yr un croeso caredig a'r un boddhad yn eich cwmni—dyna sy'n eich aros bob tro. Pleser calon yw ymweld a fferm ond gofalu am y cynhaeafau. Os ewch adeg cynhaeaf rhaid ei siawnsio. Wedyn fe wneir y goreu o'r gwaethaf. Nid oedd yn ddiwrnod prysur ddoe a cheid haundden a hwyl at sgwrs a stori. "Y ma nhw'n shaffo," meddai rhywun wrthom. Deallem. O glywed y gair *shaffo* aethom ar ein hunion i'r ysgubor a chlywem glonc y rhodau a berw gwyllt y dŵr. Deffroes y gair *shaffo* ryw dant anghyffwrdd yn fy nghalon. Syntyfyriwn uwch ei ben. Cofiwn fy mod innau yn hoff o *shaffo*—nid yn ystyr y fferm hwyrach. Yr wyf wedi *shaffo* llawer yn ystod fy oes ac nid wyf yn sicr na chred llawer fy mod yn cael hwyl ar *shaffo* cynlluniau ac awgrymiadau pobl eraill. Gwn nad da rhoi *shaff* rhy ffras i gyllá dyn nac anifa:l. Yr wyf wedi *shaffo* yng ngwir ystyr y gair cyn hyn. Cofiaf am hen fachine-shaffo bach digon anodd ei droi á nerth br ich crwt deg neu ddeuddeg oed. Er troi a throi'n ddistop nid oedd nemor o'm hol ar lawr y sgubor. Felly y mae mewn bywyd o hyd. Er troi a throi yn fy nghylch bach, nid oes nemor o'm hol ar yr ardal. Y mae'n anodd *shaffo* o hyd!

Nid nerth braich ydoedd yn y fferm ond nerth y dŵr. Codid y *ploc* yn y llyn a chai'r dŵr ryddid i ddiane. Rhedai ar garlam wyllt at y rhod ddŵr fel plentyn afloneydd ac ymhen moment yr oedd hithau yn chwyrnellu. Yr oedd rhywbeth yn *catching* yn y mynd a rhyddid y dŵr. Prin yr oedd yr hên rôd wedi dechrau troi na welem rôd fach arall yn ei chesail megis yn troi'n gynt lawer na hi a rhywun yn sôn am *fultiply* y rhôd. Nid oeddem

bob yr un yn gwylio. Yr oedd y dŵr yn dawnsio ar y llwyau a'r trochion gwyn yn sôn am brydferthwch Duw'n gweithio. Bob yn dipyn sylwasom ar y werthyd yn troi—rhôd yn troi rhôd, a meddyliwn am rywun yn digwydd mynd i afael y rhodau. Fe'i dernid. Synfyfyriwn a meddyliwn am afiechyd a thwymyn. Fe esboniai'r rhodau yn troi'n ei gilydd y cyfan. Dyna yw afiechyd a thwymyn, dyn yn mynd i afael olwynion yr hên fyd yma ac yn cael ei anafu'n dost. Ambell dro fe ddianc gyda'i fywyd. Dro arall fe'i dernir. Beiwn Dduw. Dywedwn llaw Duw y sy'n cipio'r bywyd o'n gafael. Mor blentynaidd yr esboniwn, a'n meddygon ar eu goreu glâs yn ceisio gorchfygu afiechyd a thwymyn. Ni fedrent â llaw Duw yn y dwymyn. Gwell gennyf aros a meddwl am y rhod ddŵr yn troi gan yrru olwynion ereill a gwae'r neb a â i'w gafael. Felly y mae mewn bywyd. Od â dyn i afael olwynion yr hen fyd yma a yrrir gan ryw nerth dall di-deimlad, fe'i dernir gan dwymyn ac afiechyd cyn sicred a chan olwynion y rhod ddŵr. Nid oes a fynno Duw a thwymyn ac afiechyd mwy nag a gafaelion yr hen rodau y sy'n darnio y neb a ddaw i'w dannedd. Ofnwn i rhag i rywrai ddianc o'm gafael, i afael y rhôd a'r werthyd. Ofnaf lawn cymaint rhag iddynt fynd i afael olwynion afiechyd a thwymyn. Y maent yn dibynnu i raddau mawr iawn ar fy ngofal i.

O fynd trwy ddrws yr ysgubor fe gawd rhyfeddod newydd—y cyllyll gloyw yn troi am ei gilydd a phob un ar yn ail yn darnio'r ysgub. Nid oedd gynneu ond ysgub, ymhen moment y mae'n grug o shaff. Hir hir y buom cyn gweld fod a fynno codi'r ploc a'r shaffo.

Edrychwn yn hir ar yr ysgub yn cael ei dirwyn i'w hangau fel pe tae. Yr oedd yn mynd heb fedru aros. Yr oedd ei thynged wedi ei selio, a llaw'r ffermwr yn ei harwain. Nid oedd angen ond *slip* a byddai y llaw honno hefyd yn gymysg a'r gwellt. Ni ofala'r nerth dall di-deimlad beth sydd dan y gyllell. Ei waith yw gyrru'r olwynion a'r cyllyll a thorri popeth. Ond cofio hynyna ni cheisiwn am esboniad ar fodur yn taro plentyn yn fwy na *microbe* yn ei ladd. Yr un gallu dall y sydd ar waith a gwaith dyn yw gofalu a llywodraethu y naill a'r llall. Ffolineb yw sôn am Dduw yn pennu amser a galw adref. Y mae marw ar y plan a dyn yn cerdded drwy ganol byd o olwynion a chynt neu hwyrach fe â i'w gafael. Nid yw angau ddim amgen nag ergyd y ffust yn gwahanu'r yd oddiwrth yr us a'r plisgyn. Y mae'r yd aeddfed yn *dihilo* megis ohono ei hun ond gofyn ergyd caled cyn gwahanu'r yd anaeddfed. Felly ym mywyd dyn. Y mae'r hên yn marw'n ddidrafferth ond y mae'r ieuanc a'r canol oed yn gwneud *struggle* am fyw. Ni chredaf y deallwn angau yn well nag ar bwys olwynion y rhôd ddŵr.

O edrych yn y cafan fe welwn ambell dro y Cloig a dro arall y gwair—ambell dro y banadl a dro arall y blaenion cithin. Fe ŵyr y ffermwr beth yw'r gwerth y sy' ymhob peth y mae'n shaffo.

Nid oes ormod o nodd yn ambell gloigen. Gwyr fod angen *shaff* 'sgubau ar y ceffylau gwaith a'r da godro. Ambell dro gelwir am shaffo'r banadl ac o bydd eisiau "graen ar y blewyn" nid oes dim yn well na blaenion eithin. Y mae i bopeth ei amcan a'i les. Yr oedd yr hen bobol yn hoff o gynghorion syml a meddyginiaethau syml. Bellach y mae'r *siop* ar bwys. Y mae mynd ar y nwyddau. Nid wyf yn sicr fod y feddyginiaeth newydd gymaint yn well na'r hên. Y mae'n ddrutach bid siwr ta rhywbeth yn hynny.

Arosais ennyd i synfyfyrio.

Nid yw wedi'r cyfan i gyd ond sgubau neu gloig, ond banadl neu flaenion eithin. Y mae ambell gymeriad fel ysgub lawn yn *dihilo* ar y llawr dyrnu. Y mae arall fel hen gloigen a rhywbeth yn fasw ynddo drwodd a thro. Fe geir ambell gymeriad fel y banadl. Y mae'n hangen ar gymdeithas ar dro ond pe cawn i ddosrannu fy hun buaswn yn dywedyd mai blaenion eithin ydwyf. Nid yn bennaf am fy mod yn bigog. Yr wyf felly ond credaf i fod pob gweinidog ac offeiriad felly.

Y mae rhywbeth yn eisiau er "rhoi graen ar y blewyn" ac ofnaf ar ambell dro mai dyna'n prif swydd. Beth bynnag am hyn, dyna yw cymdeithas, y crug *shaff* ar y llawr, y mae'r ysgub a'r gloigen, y gwair a'r flachys, y banadl a'r blaenion eithin wedi eu *shaffo* gan yr hen fyd yma, a gwelaf innau yn nameg y shaffo nad wyf ond un *shaffyn* bach yn y crug. Pan ddaw Duw a'i wyntyll yn ei law i wahanu y *shaff* beth fydd fy nhynged i? Ni wn ond gwn fod Efengyl i mi ac esboniad newydd ar ddyfnion bethau Duw yn nameg seml y *Shaffo*.

N. a N.

Y GWANWYN.

Dy lanw sydd heddiw dros y tir,
  A'th gân yn dringo o gwm a dôl;
Mae'r claf a fu drwy'r gaeaf hir
  Yn nychu'n,—falch dy weld yn ôl.
Daw deunod côg o goed y glyn,
  A pheraidd salm o'r lasnen bell;
Mae'r wennol dan y bondo gwyn
  Yn sôn am Haf a dyddiau gwell.
A theimlaf fel yr adar ffri
Arial y Gwanwyn ynof i.

Prengwyn. Ifan Jones.

Urdd y Benywod.

GELWIR sylw Aelodau Urdd y Benywod i ddau bamffled "Beth yw eich ateb?" a "Chwestiynnau heddiw." Danghosant a saif Undodiaeth drosto a hefyd neges crefydd at rywrai tuallan i gylch y capel a'r enwad. (Lindsey Press. 2 am 1c., yn rhad drwy'r Post).

DIOLCH. Diolcha adran Glanrhondda i bawb a anfonodd barseli gogyfer a'u Sale of Work a'r Jumble Sale.

Y SULGWYN. Bydd Cyfarfodydd y Gymdeithasfa Gyffredin yn Essex Hall, Mehefin 10—13. Cyferfydd Cyfarfod Blynyddol Urdd y Benywod am 2.30, Dydd Gwener, Mehefin 13, a thraddodir anerchiad gan Mrs. Peaston (Huddersfield). Anfoner enwau y cynrychiolwyr i "Secretary, Women's League, Essex Hall, London," cyn Mai 20. Rhoir llety i un cynrychiolydd o bob cangen.

BRONDEIFI. Nos Wener diweddaf cafwyd Demonstration yn High Class Cookery gan Miss Cissie Evans, Coedmor Hall. Yr oedd yr Ysgoldy yn llawn—yn agos i gant yn bresennol. Hwn oedd cyfarfod olaf Urdd y Benywod am y flwyddyn—Miss Evans yn cadw cyhoeddiad wedi ei ohirio. Yr oedd pawb yn ddiolchgar dros ben i Miss Evans am ei charedigrwydd. Cynhygiwyd diolch iddi gan Mrs. Davies, Gelliaur (Silian gynt) a Miss Davies, Llythyrdy yn eilio. Treuliwyd noson adeiladol a buddiol.

Y Parch. Evan Lewis, Cilgwyn, Ceredigion.

(PARHAD.)

YN 1846 dioddefodd golled fawr trwy farw Mary ei wraig, yn fferm Pantygwas, yr hon oedd wedi brynu yn flaenorol a pha le yr aeth i fyw. Bu hi yn wir ymgeledd iddo yn ei waith gweinidogaethol. Cymerodd ei hangladd le yn Eglwys Blwyf Ystrad rhwng Llanbedr ac Aberaeron, a daeth nifer mawr o'r cyhoedd iddo.

Derbyniai rodd fechan o bum' punt y flwyddyn oddiwrth y Llywodraeth am flynyddoedd lawer cyn iddo farw, yr hon a anfonid i lawr iddo'n gyson gan y diweddar Arglwydd Westbury, yr Arglwydd Ganghellor y pryd hynny. Hefyd derbyniai bum' punt y flwyddyn trwy ddwylo'r Parch. D. Lloyd, Caerfyrddin, yr hon oedd ysgoloriaeth a roddwyd iddo o'r Gronfa Bresbyteraidd ar enwebiad (nomination) y Parch. Mr. Davies, ond nis gwyddom pwy oedd hwn.

Daeth ar amryw achlysuron ar gefn ceffyl i Aberystwyth i bregethu, ac arosai gyda'i fab William Lewis yn Nhrefechan, tad yr Ysgrifennydd, a phregethai yng Nghapel "Wesley Bach" yn Lewis Terrace ond a elwir yn awr Alexandra Road ac yn bresenol defnyddir ef yn "Wersyllty" (Citadel) Byddin yr Iechydwriaeth.

Mi welais Evan Lewis sawl gwaith a bum yn ei wrando a siarad ag ef droion ond ni allaf ddweyd llawer am ei bregethau na'i allu pregethwrol am ty mod yn bur ieuanc ar y pryd ac yn analluog i ddeall a barnu yn iawn. Yr oedd ganddo lais clir a son'arus a gwyneb serchog, glân, a golwg boneddigaidd arno, ac i weld i mi yn feistr trwyadl ar ei waith.

Yr oedd y capel bob tro y deuai yn llawn o bobl a llawer y tu allan yn methu mynd i mewn. Mi glywais rhai o'r gwrandawyr ar ol dod allan yn tystiolaethu yn unfrydol am ei allu a'i fedrus rwydd, a'r dull y pregethai, a'r modd diheuig y trinau y pwnc oedd ganddo dan sylw. Yr oedd, 'rwyn coelio, wedi ei alw i fod yn bregethwr gwirioneddol.

Bob tro y daeth i Aberystwyth yr oedd yn cael tâl o hanner coron. Pan y gwnawn feddwl am dano yn dod ar gefn ei gaseg fach rhyw ddeugain milldir o ffordd y mae hyn yn siarad yn uchel am ei gariad at waith ei Feistr. Yr oedd rhai ar hyd a lled Cymru y pryd hwnnw yn gwneud yr un peth. O fel y mae pethau wedi cyfnewid. Carwn wybod a oes dwsin o bregethwyr yn ein gwlad heddyw a wnaent yr un aberth. Yr wyf mewn amheuaeth os oes. Beth yw'r achos sy'n cyfrif am hyn? Y gwirioneddl yw fod pregethu wedi mynd yn grefft gan y rhan fwyaf o'n pregethwyr am nad ydynt wedi cael eu galw i'r gwaith mawr a phwysig. Pan y bydd pregethwr wedi cael galwad i fynd yn fugail i eglwys arall a chael rhagor o gytlog fe hysbysa i'w eglwys ei fod wedi cael galwad o'r fan a'r fan a bod yr Ysbryd yn ei arwain i dderbyn yr alwad. Ond y gwirionedd yw mae'r boned a rhagor o gytlog yw'r achos yn aml ac nad oes gan yr Ysbryd ddim byd i wneud a'r peth. Dyma 'r achos i raddau helaeth fod cretydd y dyddiau hyn wedi mynd o dan len.

Peth arall, nid oedd gan yr enwad "Wesley Bach" goleg yng Nghymru ac felly yr oedd pregethwyr yr enwad hwnnw wedi dod ymlaen dan anfanteision lawer.

William Lewis, un o feibion Evan Lewis oedd un o'r diaconiaid, a phan fu farw efe oedd ei ddiacon olaf. Fe aeth yr achos wedyn i lawr ac fe werthwyd y capel i Fyddin yr Iechydwriaeth. Fe fu William Lewis yn ffyddlon i'r diwedd. Yr oedd yn ddyn caredig a serchog iawn a phawb yn ei hoffi.

Un tro aeth Evan Lewis i Lanbedr a gadawodd nifer o lyfrau mewn llawysgrif gyda llyfrwerthwr yno, ond ni chafodd hwynt byth yn ol. Paham, nis gwn. Gresyn i hyn ddigwydd am y gall "Hanes Cilgwyn" Philip Pugh neu "Lyfr Eglwys Cilgwyn" boreuol fod yn eu plith.

Tro arall fe alwodd person yn fferm Pantygwas ac fe welodd Mrs. Lewis, gwraig Evan Lewis, am nad oedd ef ddim yno, a gofynodd iddi am fenthyg rhai o'i lyfrau. Fe roddodd hi y llyfrau iddo heb ofyn am *receipt* o gwbl. Fe addawodd y buasai yn eu dychwelyd yn ol yn fuan ond ni wnaeth hynny ac ni welwyd mor dyn na'r llyfrau. Yr oedd yn dro gwael iawn ac anfoneddigaidd. Feallai fod "Hanes Cilgwyn" Philip Pugh neu "Lyfr Eglwys Cilgwyn" yn eu plith. Fe fum i a pherthnasau eraill yn Llanbedr gyda'r llyfrwerthwr yn treio cael y llyfrau ond methasom yn lan er i ni gynnyg arian iddo am eu cael yn ol.

(*I'w barhau.*)

Priodasau.

Yn Eglwys St. Ioan, Clydach, dydd Sadwrn, Mawrth 15fed, o flaen y Ficer a'r Cofrestrydd, priodwyd Mr. Glyn Hodge, New Road, Trebanos a Miss Amelia Jenkins, Trebanos House, Trebanos.

Llun, Ebrill 21, yn Llwynrhydowen, Mr. David Tom Evans, mab y diweddar Mr. a Mrs. Evans, Mynach Arms, Cribyn, a Miss Lilian Kate Evans, ail ferch Mr. a Mrs. Evans, 100, Edgware Road, Marble Arch, Llundain. Gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins, ym mhresenoldeb y Cofrestrydd, Mr. Elias Rees.

Marwgofion.

GWENER, Mawrth 21, yn 28 oed, Johnny Bowen, Graig Road, Gellinudd, Pontardawe. O sylwi, fe welir wrth yr oedran uchod fod yna rhywbeth anarferol wedi gorddiwes y brawd annwyl. Wele eto un o'r marwolaethau sydynaf a gymerodd le yn y cylch er ys talwm. A than ordd drom digwyddiad felly, mor anodd yw dal a chadw gras enaid a chalon. Onid ydyw dyn yn agored i ferwi drosodd yn ei feddwl a'i ysbryd? A pharod yw i ofyn a ydyw Duw yn gofalu. Problem ddyrysaf bywyd ydyw hon; a phwy a'i dehongla? Anghenraid ydyw arnom i adael yr adnod yn y man lle y mae, gan obeithio y daw'r dydd pan welwn haul a goleuni amser a thragwyddoldeb yn troi'r nos yn ddydd a'r caddug yn llachar byw. Un o fechgyn llawen yr eglwys a'r lle ydoedd yr ymadawedig. Ni sylwasom iddo ef erioed roddi llety i ddig yn ei galon. Meddai ar duedd a bywyd syml ac unplyg. Hoffem ei ffyrdd chwareus a'i wenau siriol. Yr oedd pawb yn ffrind iddo, ac yntau yn ffrind i bawb. Pan briododd efe, aeth i fyw i Gellinudd, lle mae'r weddw a'r rhai bach yn bresennol. A thra oedd yr Oratorio "Sant Paul" yn cael ei hymarfer gan y côr yng Nghapel y Graig, ychydig cyn y gyngerdd, daeth Johnny yntau lawr i'r practis, can's mawr oedd ei fryd ar ganu, a brwdfrydig am y gyngerdd. Ond nid hir y bu yn yr ysgol gân, gan yr achwynai fod poen arno a neb yn meddwl fod yr un niwed arno. Beth bynnag, yn lle dychwelyd gartref i Gellinudd, aeth i gartre agosach, tŷ ei dad, David W. Bowen, Bowen's Terrace, Trebanos, ac oddi yno gyda'r sydynrwydd a nodasom eisoes y croesodd i dŷ ei Dad nefol. Cymerodd yr angladd le ar Wyl Fair, ac o dŷ ei dad, a chladdwyd wrth Gellionnen. Gwasanaethwyd gan y Parch. D. G. Rees, gweinidog; a chynorthwyodd y Parch. D. Johns, Trebanos. Eiddunwn i'r weddw ieuanc a'r ddau fach y sydd ar ol bob nawdd a chymorth a phob cydymdeimlad. Caled iawn i'r fam yw meddwl fod ei Johnny annwyl wedi mynd, ond gan fod y plant bach, perlau'r aelwyd eto ar ol, credwn y bydd ei thrallod a'i hiraeth yn llai, a'i llawenydd a'i dedwyddwch yn fwy.

Ffarwel iti, annwyl Johnny,
Hoffem ni yn fawr dy gwmni;
Os oes nefoedd, 'rwyt ti yno,
A chawn ni dy gwrddyd eto.

"Ffarwel i chwi, annwyl dadi,"
Ebe Tudien fach a Dewi;
Ffarwel iti, annwyl Johnny
Wnei di'n cofio at yr Iesu?

Cofia'r pedwar at yr Iesu,
Mam a minnau, Tudien, Dewi;
Os oes nefoedd, rwyt ti yno,
A chawn ni dy gwrddyd eto.

BANOS.

DYDD Iau, 3ydd o Ebrill, yn 65 oed, Evan Jones, Chapel House, Capel-y-Bryn, ar ol cystudd hir a chaled. Un o blant Capel-y-Bryn ydoedd, ond am flynyddoedd bu yn byw ym Maesteg lle yr oedd yn barchus iawn gan bawb ac yn ddiacon yng nghapel yr Annibynwyr. Yr oedd yn ddyn hynaws, a meddai alluoedd uwch na'r cyffredin. Claddwyd ef dydd Mawrth yr 8fed ym mynwent Capel-y-Groes, a gwasanaethwyd yn yr angladd gan y Parchn. Morris Jones, Drefach; J. Vaughan Pughe, Seion, Cwrtnewydd (yn y tŷ); S. E. Bowen (yn y capel), a D. Conwil Evans a T. Oswald Williams, M.A., ar lan y bedd. Gadawodd wraig a llu o berthynasau i alaru ar ei ol.

DYDD Llun, y 7fed o Ebrill, yn 67 oed, John Thomas, Maesllyn, Cwrtnewydd. Bu yn glaf am fisoedd ond daeth y diwedd yn sydyn, a thrwy drugaredd ni fu ei gystudd olaf yn hir. Treuliodd ei holl ddyddiau yn y gymdogaeth. Bu yn weithiwr

caled a diwyd ac yr oedd trwyadledd a gonestrwydd yn nodweddol o hono bob amser. Brawd ydoedd i Mrs. Jones gynt o Pantstreimon ac ewythr i'r Parch. Ceirion Jones, Caerdydd. Gadawodd wraig a meibion a merched ar ei ol mewn galar o golli tad cariadus. Claddwyd ef y dydd Gwener canlynol yng Nghladdfa Capel-y-Bryn, a gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. J. Vaughan Pughe, yn y capel gan y Parch. S. E. Bowen, a'r Parch. E. O. Jenkins ar lan y bedd.

Nodion yr Eglwysi.

Y GRAIG A GELLIONNEN.—Nosau Iau, Mawrth 6fed a'r 20fed, dangoswyd ar yr hud-lusern gyfres o ddarluniau "Livingstone yn Affrig" a "Chaban F'ewyrth Twm." Rhoddodd y Parch. D. G. Rees ei sylwadau arnynt, a mwynhaodd pawb eu hunain yn gampus, ac ysgoldy'r Graig yn orlawn bob tro. Y llusernydd oedd Mr. Hopkin Jones, Graig Stores, Trebanos. Eto, yn Neuadd Gyhoeddus Pontardawe, nos Fercher, Mawrth 26ain, dan nawdd a chefnogaeth cynulleidfa'r Graig a Gellionnen rhoddodd y côr dan arweiniad Mr. H. H. Morgan, berfformiad o'r Oratorio enwog "Sant Paul" (rhan gyntaf) a chyfeiliwyd gan Mr. I. E. Hopkin, Brynderw. Hefyd, cafwyd gwasanaeth cerddorfa ddewisiedig, dan ofal Mr. Marles Williams, Glandolau. Llawen gennym dystio i bob un wneud ei waith yn ganmoladwy. Cafodd y côr enw da gan lawer o feirniaid o fri. Diolchir yn garedig iawn yn y nodion hyn i'r brodyr a'r chwiorydd hynny fu'n helpu côr y Graig, a gobeithiwn y ceir eto, cyn hir, *social* fach i roesawu ac adloni'r cyfryw am eu caredigrwydd yn rhoddi eu gwasanaeth. Mae clod yn ddyledus i Mr. Arthur Gwyn Davies, Trebanos yn awr, am iddo ganu yn neuawd y Bass yn Sant Paul, gyda Mr. J. Ambrose Lloyd. A chan nad oedd rhan gyntaf Sant Paul yn ddigon o gyngerdd gyfan ynddi ei hun, rhoddodd y rhai canlynol unawdau arbennig i ddiddori'r dorf fawr oedd yno: Madam Bessie Davies yr hon a ganodd un gân efo chwibanogl gyfeiliant gan un Mr. A. Diehl, a chawsant fanllef o gymeradwyaeth, yn yr un modd ag y cafodd Mr. I. E. Hopkin wrth gyfeilio ar y piano mewn cân arall,—ac y mae ambell gân pan mae'r cyfeiliant braidd yn bertach na'r gân, ond pe tawai'r gân a fyddai'r cyfeiliant cystal wrtho'i hun? Contralto: Madam Maggie Davies; Tenor: Mr. J. Emlyn Burns; Bass: Mr. J. Ambrose Lloyd. Ac felly y diweddwyd un o'r cyngerddau goreu gynhaliwyd erioed ym Mhontardawe. Cadeirydd y Pwyllgor oedd Mr. John Hopkin. Ysgrifenyddion: Mri. John O. Morgan, Maesycoed a William Morgan, Arosfa, Trebanos.

ALLTYBLACA.—Ar y 14eg o Fawrth cynhaliodd yr Ysgol Sul ei gwyl dê flynyddol. 'Roedd yr Athrawon a chyfeillion o'r gynulleidfa wedi gwneud paratoadau da, a hyfryd oedd gweled nifer luosog yn bresenol. Yn y cyngerdd a ddilynodd caed rhaglen ddymunol iawn gan y plant, a gwnaethant eu rhan gyda'r canu a'r adrodd yn ganmoladwy.——Ar Sul, 23ain o Fawrth, etholwyd y diaconiaid newydd canlynol:—

Thomas Davies, Llanwnen.
Thomas Davies, Pleasant View.
Watkin Davies, Blaencrwser.
John Davies, Eithin Cottage.
Tom Evans, Dolau Uchaf.
John Evans, Llwynbedw.
George Evans, Ffinant Arms.
Tom Evans, Clunhir.
James Thomas, Bryn, Llanllwni.
David Williams, Dolau Gwyrddon.

J. D. Lewis, Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.

Crown 8vo. Cloth 2/- net, Stiff Covers, 1/6 net.

THE AUTHOR OF

NEARER, MY GOD, TO THEE

(SARAH FLOWER ADAMS)

By H. W. STEPHENSON, M.A.

The illustrations include a reproduction in facsimile of the original M.S. of the hymn, "Nearer, my God, to Thee."

This Hymn, which first appeared in the Hymn Book of the South Place Unitarian Chapel, Finsbury, E.C., is more widely known than any other by a Unitarian writer. It is the expression of a faith that had endured many doubts and, at one time, seemed as though it would pass utterly away. This Memoir brings together all that is known of the life story of Mrs. Adams. Ministers and Teachers in Sunday Schools will do well to add it to the books already on their shelves; they will find it not only readable but useful as well.

Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, W.C. 2

JOHN E. JONES

(CERTIFICATED).

JEWELLER, SILVERSMITH & OPTICIAN,

1, WIND STREET, LLANDYSSUL.

WHAT BETTER PRESENT
CAN YOU GIVE THAN A

GRAMOPHONE?

A GIFT THAT WILL GIVE PLEASURE AND ENJOYMENT THROUGHOUT THE YEAR.

AGENT FOR "HIS MASTER'S VOICE" AND ALL LEADING MAKES OF GRAMOPHONES AND RECORDS.

:: Bradford House, Llandyssul ::

FOR SPRING AND EARLY SUMMER.

NEWEST GOODS IN LADIES', GENT'S and CHILDREN'S WEAR NOW IN STOCK.

MOURNING ORDERS IMMEDIATELY ATTENDED TO.

E. LLOYD JONES.

OS YDYCH AM RODDI . .

Anrheg am Ffyddlondeb i'r Ysgol Sul

. . A FYDDO YN DDERBYNIOL

—RHOWCH GOPI O'R—

'PERLAU MOLIANT'

ARGRAFFIAD NEWYDD.

ARGRAFFIAD SOLFFA.

	s.	c.
Rhwymiad French Morocco (India Paper) Ymylon Aur ...	7	0
Lledr ... ... eto ...	5	6
Lledr, ochrau Llian ... ... eto ...	4	6

ARGRAFFIAD HEN NODIANT.

	s.	c.
Lledr, Ymylon Aur	7	6
Rhwymiad Arbennig, eto	15	0

Anfoner pob Archebion gyda Blaendal i—

: : J. D. LEWIS, : :

Swyddfa'r 'Ymofynnydd,' Llandysul.